NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Lenvatinib ar gyfer carsinoma hepatogellog datblygedig heb ei drin

19 Rhagfyr 2018

Mae Lenvatinib (Lenvima) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer carsinoma hepatogellog datblygedig heb ei drin ymhlith oedolion os yw pob un o'r canlynol yn berthnasol:

- ni ellir tynnu'r tiwmor yn llwyr
- mae ganddynt nam gradd A Child-Pugh ar yr afu/iau
- mae ganddynt statws perfformiad Eastern Cooperative Oncology Group (ECOG) o 0 neu 1.

Os nad ydych yn gymwys i gael levatinib, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Ymddiriedolaeth Hepatitis C, 0207 089 6221
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 000
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3206-1

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights